

Ysgrifennu Datganiad Personol ar gyfer eich cais Hyfforddiant Athrawon UCAS

Pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais drwy borth Hyfforddiant Athrawon UCAS, bydd angen i chi ysgrifennu datganiad personol. Y datganiad personol yw eich cyfle i roi gwybod i'ch darparwyr hyfforddiant am eich rhinweddau, eich sgiliau a'ch gwybodaeth, a'ch ysgogiad i fod yn athro. Bydd datganiad personol da yn cyfleu eich brwdfrydedd dros ddysgu ac amlygu eich cryfderau.

Y prif bwyntiau y dylech eu cynnwys:

- y rhesymau pam eich bod yn awyddus i ddysgu a pham y byddwch yn mwynhau dysgu'r pwnc a/neu'r grŵp oedran a ddewisoch
- eich gwybodaeth am heriau a gwobrau dilyn gyrfa fel athro
- sut mae eich astudiaethau blaenorol yn berthnasol i'r pwnc a/neu'r grŵp oedran a ddewisoch
- pa rinweddau personol sydd gennych a fydd yn eich gwneud yn athro llwyddiannus, er enghraifft cyfathrebwr rhagorol, trefnus, creadigol, rheoli pobl a sgiliau arwain
- eich profiad yn yr ystafell ddosbarth – beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r profiad a sut mae hyn wedi dylanwadu ar eich cais. Mae angen i chi fyfyrion ar eich profiad yn hytrach na disgrifio eich profiad yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Er enghraifft, yn hytrach na dweud:

'Cynorthwyais i gyflwyno gwrs ar ddŵr yn ein cymunedau a gweithiais gyda rhai disgyblion a oedd yn cael trafferth gyda'u mathemateg', gallech ysgrifennu:

'Drwy gymryd rhan weithredol wrth ddysgu gwrs ar y defnydd o ddŵr yn ein cymunedau, rwyf wedi deall pwysigrwydd paratoi amrywiaeth o dasgau i gwmpasu'r ystod eang o anghenion dysgu fel bod pob disgybl yn gallu cyfranogi'n effeithiol'

- unrhyw brofiad arall o weithio gyda phobl ifanc, megis gweithio mewn gwrsyll gwyliau haf, rhedeg tîm chwaraeon neu gynorthwyo mewn clwb ieuenctid

Gallwch ysgrifennu hyd at 47 llinell o destun yn eich datganiad personol

- Gallwch ysgrifennu yn Gymraeg (os ydych yn gwneud cais i ddarparwyr yng Nghymru) neu yn Saesneg
- Ceisiwch osgoi defnyddio llythrennau italig, print trwm a thanlinellu
- Gwiriwch eich gramadeg a'ch atalnodi
- Drafftio eich datganiad personol yn Word i ddechrau, ac yna pan fyddwch yn hapus ag ef gallwch ei gopïo a'i ludo i mewn i'ch cais – mae croeso i chi gyflwyno fersiwn ddrafft o'ch datganiad personol i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a byddwn yn flach o'r cyfle i ddarparu adborth a sylwadau

Eich gwaith chi yn unig dylid ei gyflwyno. PEIDIWCH Â CHOPÏO datganiad personol rhywun arall. Bydd Hyfforddiant Athrawon UCAS yn sgrinio eich datganiad personol i ganfod tebygrwydd. Pe byddai problem o'r fath yn codi yn achos eich datganiad chi, gallai achosi canlyniadau difrifol i'ch cais.